Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau

INF188/6W



# Gaf i yrru tra bod fy nghais gyda DVLA?

Cadwch y daflen hon yn ddiogel fel y gallwch gyfeirio ati yn y dyfodol

**Efallai y gall Adran 88 y Ddeddf Traffig Ffyrdd 1988 ganiatáu ichi barhau i yrru er nad ydych yn dal trwydded yrru gyfredol.**

Yn ymarferol, bydd hyn pan fyddwch wedi gwneud cais i DVLA i adnewyddu eich trwydded, ond mae’r drwydded yn dod i ben (rhedeg allan) tra rydym yn prosesu’r cais.

CUSTOMER SERVICE EXCELLENCE
RHAGORIAETH MEWN GWASANAETH I GWSMERIAID
CSE
INVESTORS IN PEOPLE
We invest in people Gold
Rydym yn buddsoddi mewn pobl Aur

8/23

**I barhau i yrru o dan Adran 88, rhaid ichi fodloni'r meini prawf canlynol i gyd:**

- Rydych yn bodloni'r safonau meddygol o ffitrwydd i yrru. Os oes gennych gyflwr meddygol ac mae meddyg neu weithiwr gofal iechyd proffesiynol wedi dweud wrthych i beidio â gyrru, ni ddylech wneud hynny. Os yw eich meddyg neu'ch gweithiwr gofal iechyd proffesiynol yn ansicr am sut y gall cyflwr meddygol effeithio ar yrru, dylai gyfeirio at 'Asesu ffitrwydd i yrru – canllaw ar gyfer gweithwyr proffesiynol meddygol yn **www.gov.uk/dvla/fitnesstodrive**
- Rydych wedi dal trwydded yrru ddilys (gweler *isod) a dim ond yn gyrru cerbydau rydych wedi gwneud cais amdanynt ar eich cais cyfredol ac a oedd gennych hawl i'w gyrru ar eich trwydded flaenorol.
- Os ydych yn dal trwydded Grŵp 2 (bws neu lori), nid yw eich hawl wedi cael ei hatal dros dro, ei diddymu neu ei gwrthod gan gomisiynydd traffig.
- Rydych yn bodloni unrhyw amodau a oedd wedi'u rhestru ar eich trwydded flaenorol sy'n dal i fod yn gymwys.
- Mae DVLA wedi derbyn eich cais cywir wedi'i lenwi'n gyflawn o fewn y 12 mis diwethaf.
- Nid oedd eich trwydded ddiwethaf wedi ei diddymu na'i gwrthod am resymau meddygol.
- Nid ydych wedi'ch gwahardd rhag gyrru ar hyn o bryd gan lys.
- Nid ydych yn ailymgeisio am drwydded yrru yn dilyn eich gwaharddiad fel troseddwr risg uchel ar neu ar ôl 1 Mehefin 2013 (troseddwr risg uchel yw gyrrwr a gafwyd yn euog o drosedd yfed a gyrru difrifol).

* gall y drwydded hon fod yn drwydded Prydain Fawr lawn, yn drwydded Prydain Fawr dros dro, yn drwydded Y Gymuned Ewropeaidd, yn drwydded Gogledd Iwerddon, yn drwydded allanol Brydeinig/Lluoedd Arfog Prydeinig neu yn drwydded y gellir ei chyfnewid.

## Tra bod DVLA yn cwblhau ymchwiliadau meddygol i benderfynu p’un ai y gall trwydded gael ei chyhoeddi, ni allwn ddweud wrthych chi os yw Adran 88 yn berthnasol ichi.

Chi a’ch meddyg neu’ch gweithiwr gofal iechyd proffesiynol sydd yn y sefyllfa orau i ystyried meini prawf Adran 88 a phenderfynu p’un ai y dylech yrru tra’ch bod yn aros i’ch trwydded gael ei chyhoeddi.

## Mae Adran 88 yn ddilys nes bydd unrhyw un o’r canlynol yn gymwys:

- Rydych yn derbyn eich trwydded yrru newydd (gan y bydd hon yn rhoi’r hawl ichi yrru).
- Mae eich cais yn cael ei wrthod neu eich trwydded yn cael ei diddymu gan DVLA. Byddwch yn derbyn llythyr wrth DVLA os mai hwn yw’r achos.
- Mae eich cais dros flwydd oed.
- Rydych wedi cael eich gwahardd rhag gyrru ers i’ch cais gael ei anfon i DVLA.

## Dyma rai senarios a allai helpu i esbonio sut y gallai'r gyfraith hon fod yn berthnasol ichi.

**Mae gen i gyflwr meddygol yr wyf eisoes wedi dweud wrth DVLA amdano. Rhoddodd DVLA drwydded imi pan wnes i ddatgan y cyflwr yn gyntaf ac nid yw fy nghyflwr wedi newid. Does gen i ddim cyflyrau iechyd newydd eraill. Gaf i yrru?**

Cyn gynted ag y bydd DVLA yn derbyn eich cais cywir wedi ei lenwi'n gyflawn am drwydded newydd a chyn belled ag y byddwch yn bodloni meini prawf Adran 88 i gyd, byddwch yn cael gyrru.

**Mae gen i gyflwr meddygol newydd yr wyf wedi dweud wrth DVLA amdano ar fy nghais diweddar. Gaf i yrru?**

Cyn gynted ag y bydd DVLA yn derbyn eich cais cywir wedi ei lenwi'n gyflawn am drwydded newydd a chyn belled ag y byddwch yn bodloni meini prawf Adran 88 i gyd, byddwch yn cael gyrru. Mae'n bwysig eich bod yn hapus nad yw'r cyflwr meddygol a ddatganwyd gennych ar eich cais yn eich atal rhag gyrru. Os ydych yn ansicr, gofynnwch am gyngor eich meddyg neu'ch gweithiwr gofal iechyd proffesiynol cyn ichi wneud penderfyniad. Gallwch hefyd ddarllen rhagor am eich cyflwr yn y canllaw 'Asesu ffitrwydd i yrru', sydd yn **www.gov.uk/dvla/fitnesstodrive** i weld a ydych yn bodloni'r safonau meddygol i yrru. Gan mai ar gyfer pobl broffesiynol gofal iechyd y bwriedir y canllaw hwn, gall fod yn gymhleth. Dylai eich meddyg neu'ch gweithiwr gofal iechyd proffesiynol allu eich helpu chi os bydd angen.

**Mae gen i gyflwr meddygol y mae DVLA eisoes yn gwybod amdano, ond mae wedi newid/datblygu ers fy nghais diwethaf.**

**Gaf i yrru?**

Cyn gynted ag y bydd DVLA yn derbyn eich cais cywir wedi ei lenwi'n gyflawn am drwydded newydd a chyn belled ag y byddwch yn bodloni meini prawf Adran 88 i gyd, byddwch yn cael gyrru. Mae'n bwysig na fyddai'ch cyflwr meddygol, fel y mae heddiw, yn eich rhwystro rhag gyrru. Os ydych yn ansicr, gofynnwch am gyngor eich meddyg neu'ch gweithiwr gofal iechyd proffesiynol cyn eich bod yn penderfynu gyrru.

**Ildiais fy nhrwydded yn wirfoddol ond nawr rwyf wedi gwneud cais am un newydd. Gaf i yrru?**

Cyn gynted ag y bydd DVLA yn derbyn eich cais cywir wedi ei lenwi'n gyflawn am drwydded newydd a chyn belled ag y byddwch yn bodloni meini prawf Adran 88 i gyd, byddwch yn cael gyrru. Os oedd eich cyflwr meddygol yn golygu bod rhaid ichi gymryd cyfnod penodol o amser i ffwrdd rhag gyrru i sicrhau sefydlogi eich cyflwr, rhaid ichi gwblhau'r cyfnod hwnnw cyn y cewch yrru dan Adran 88 y Ddeddf Traffig Ffyrdd. Os ydych yn ansicr edrychwch yn y canllaw 'Asesu ffitrwydd i yrru', sydd yn **www.gov.uk/dvla/fitnesstodrive** neu gofynnwch i'ch meddyg neu'ch gweithiwr gofal iechyd proffesiynol.

**Rwy'n mynd dramor a hoffwn yrru tra byddaf yno. A fydd gen i'r hawl i wneud hynny?**

Oherwydd bod y ddarpariaeth Adran 88 yn neddfwriaeth y DU, efallai na fydd yn cael ei derbyn mewn gwledydd eraill. Byddem yn eich cynghori i wirio gyda'r awdurdod trwyddedu perthnasol cyn ichi deithio.

**Cafodd fy nhrwydded ei diddymu/ei gwrthod am resymau meddygol. Gaf i yrru?**

Na. Rhaid ichi aros i DVLA ailgyhoeddi trwydded yrru newydd ichi cyn ichi ddechrau gyrru eto.

**Roedd fy nhrwydded ddiwethaf yn rhoi'r hawl i fi yrru lorïau/bysiau. Mae wedi dod i ben a nawr rwyf am wneud cais am drwydded i yrru car yn unig. Gaf i yrru? Ac os hynny, pa gerbydau gaf i yrru?**

Gallwch wirio os oes gennych hawl ddilys i yrru car a beic modur ar-lein yn **www.gov.uk/gweld-neu-rannu-eich-gwybodaeth-trwydded-yrru**. Os yw'ch hawl wedi dod i ben, gallwch yrru cyn gynted ag y bydd DVLA yn derbyn eich cais cywir wedi ei lenwi'n gyflawn am drwydded newydd cyn belled ag y byddwch yn bodloni meini prawf Adran 88. Rhaid ichi dim ond yrru cerbydau rydych wedi gwneud cais amdanynt ar eich cais cyfredol ac a oedd gennych hawl i'w gyrru ar eich trwydded flaenorol.

Os ydych yn ansicr ynghylch p'un ai eich bod yn bodloni'r meini prawf meddygol i yrru, gallwch wirio eich cyflwr (cyflyrau) yn y canllaw 'Asesu ffitrwydd i yrru' ar gyfer gweithwyr gofal iechyd proffesiynol yn **www.gov.uk/dvla/fitnesstodrive** neu gofynnwch i'ch meddyg neu'ch gweithiwr gofal iechyd proffesiynol am gyngor.

**Rwy'n gyrru bws/lori fel bywoliaeth ac rwyf wedi anfon cais i DVLA i adnewyddu fy nhrwydded. Nid oes unrhyw gyflwr meddygol gennyf. Gaf i yrru?**

Cyn gynted ag y bydd DVLA yn derbyn eich cais cywir wedi'i lenwi'n gyflawn am drwydded newydd, cyn belled ag y byddwch yn bodloni meini prawf Adran 88 a chyn belled nad yw'ch trwydded Grŵp 2 (bws neu lori) wedi cael ei hatal dros dro, ei diddymu neu ei gwrthod gan gomisiynydd traffig, byddwch yn cael gyrru.

**Rwyf dros 70 oed ac wedi anfon fy nhrwydded i DVLA i adnewyddu fy hawl i yrru. Gaf i barhau i yrru tra bod fy ffurflen i gennych chi?**

Cyn gynted ag y bydd DVLA yn derbyn eich cais cywir wedi'i ei lenwi'n gyflawn am drwydded newydd a chyn belled ag y byddwch yn bodloni meini prawf Adran 88 i gyd, byddwch yn cael gyrru. Os ydych yn ansicr a ydych yn bodloni'r meini prawf meddygol i yrru gallwch wirio eich cyflwr (cyflyrau) yn y canllaw 'Asesu ffitrwydd i yrru', sydd ar gyfer gweithwyr gofal iechyd proffesiynol yn **www.gov.uk/dvla/fitnesstodrive** neu gofynnwch i'ch meddyg neu'ch gweithiwr gofal iechyd proffesiynol am gyngor. Gan mai ar gyfer gweithwyr gofal iechyd proffesiynol y bwriedir y canllaw hwn, gall fod yn gymhleth. Dylai eich meddyg neu'ch gweithiwr gofal iechyd proffesiynol allu eich helpu chi os bydd angen.

**NODYN PWYSIG: Eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau eich bod yn bodloni meini prawf Adran 88 bob amser tra'n gyrru cyn ichi dderbyn eich trwydded.**

**Cadwch yn gyfoes â'n newyddion diweddaraf a gwasanaethau.**

**gov.uk/dvla**